

## Cyngor Cymuned Llanelian (248)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Tachwedd 12, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: T Elfyn Hughes Thomas D Jones Dafydd Griffiths  
Hefina Williams Gordon Hayes Cyng Aled Morris Jones  
Cyng Wil Hughes

Ymddiheuriadau: Glenys Jones Helen Hughes

### **Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths yn absenoldeb Helen Woodcock**

#### **1 Datgan Diddordeb**

Cais Cymdeithas y Leinws am Arian – Hefina Williams a TD Jones yn datgan diddordeb

#### **2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

2.1 Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, cafwyd e-bost gan Helen Woodcock yn ymddiswyddo fel Cadeirydd a hefyd fel aelod o'r Cyngor am resymau personol. Llythyr i'w anfon i Helen i ddiolch iddi am ei gwaith, a gobeithio gallu ei chrosawu yn ôl fel aelod rhywbryd yn y dyfodol. CET

2.2 Mae ymddiswyddiad Helen Woodcock yn golygu bod dau set wag ar y Cyngor erbyn hyn (un Llanelian, un Llwyfo). Y Clerc i osod nodyn ar yr hysbysfwrdd er mwyn gallu cyfethol aelodau newydd. CET

2.3 Etholwyd Dafydd Griffiths yn Gadeirydd gan ei fod eisoes yn Is-gadeirydd. Cynnig TD Jones, Eilio Hefina Williams, pawb yn hapus. Enwebwyd Glenys Jones yn Is-gadeirydd, ond yn ei absenoldeb bydd hyn i'w gadarnhau yn y cyfarfod nesaf. CET

#### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Hefina Williams, Eilio TD Jones

#### **4 Materion yn Codi**

4.1 Cyswllt a'r Adran Briffyrdd –

- Mae arwyddion wedi eu gosod ar gyfer cerbydau mawr ar lonydd Mynydd Eilian.
- Mae llinellau melyn wedi cael eu paentio ar y ffordd ger y traeth.
- Gwaith ar y ffyrdd i gychwyn o ddifrif yn fuan iawn.

4.2 Fferm Wynt Rhiannon - e-bost wedi ei dderbyn gan Stuart Barnes ar ran y cwmni yn dweud y bydd rhan nesaf yr ymgynghoriad yn cymryd lle yn y flwyddyn newydd ac y bydd mewn cysylltiad pryd hynny.

4.3 Cae Chwarae – mae ROSPA wedi bod i archwilio'r cae, ac mae'r adroddiad wedi ei anfon i aelodau'r is-bwyllgor. Mae nifer o bwyntiau wedi eu hadnabod, ond ar y cyfan mae'r cae yn isel ei risg.

4.4 Tir ger Ynys Bach - mae'r Clerc wedi bod drwy'r cofnodion ac wedi casglu peth gwybodaeth sy'n dangos mai'r Cyngor sydd berchen ar y llecyn tir mewn golwg. Mae llythyr wedi ei anfon at berchnogion Ynys Bach yn esbonio hyn, ac yn gofyn iddynt gysylltu â'r Clerc mewn ysgrifen os ydynt am drafod ymhellach. Nid oes ymateb hyd yn hyn.

4.5 Swyddfa Bost - mae'r Clerc wedi cysylltu â'r Swyddfa Bost ac wedi rhannu'r wybodaeth gyda Siop y Pentref sydd yn awyddus i gynnig y gwasanaeth. Mae'n debyg nad yw'r rheini sy'n cynnig y gwasanaeth ar hyn o bryd wedi son wrth y Swyddfa Bost am eu bwriad.

Fe esboniodd Cyng Wil Hughes bod sefyllfa debyg wedi bod yng Nghemaes, ac mai'r Swyddfa Bost eu hunain sydd a'r dweud olaf ynglŷn â lle bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnig. Bydd Cyng Aled Morris Jones yn ysgrifennu ar ran y Cyngorwyr Sirol i gefnogi'r Cyngor Cymuned o blaid busnes lleol yn cael cynnig y gwasanaeth, a phwysigrwydd y gwasanaeth i'r pentref. AMJ

4.6 Safle Gwastraff Penhesgyn - mae e-bost wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir yn esbonio bod hysbysiadu wedi eu gosod yn y papurau newydd lleol ac yn amlinellu'r rhesymau am y newidiadau yn y broses o ddanfôn gwastraff yno. Penderfynu monitro'r sefyllfa par gwastraff anghyfreithlon ar ochr y lonydd ac adrodd yn ôl.

4.7 Rheolau'r Cyngor - Mae 11 aelod i Gyngor Cymuned Llanelian pan fydd pob set wedi ei lenwi. Ar hyn o bryd, dim ond 9 aelod sydd.

Yn dilyn y rheolau yn y llyfryn 'The Essential Clerk' (wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru):

- Mae gan y Cadeirydd ail bleidlais os oes angen er mwyn sicrhau bod penderfyniad yn cael ei

wneud.

- Cworwm yw 1/3 o'r aelodau, ond dim llai na tri aelod i fod yn bresennol.

## **5 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)**

### **5.1 Ceisiadau –**

CET

- Sŵn y Môr - cefnogi estyniad a newidiadau/gwelliannau
- Glas y Dorlan – cefnogi estyniad a newidiadau/gwelliannau
- Pwynt Leinws - gwrthod y cais am sied amaethyddol gan nad yw'r adeilad dan sylw yn gweddu i'r adeilad sydd yno yn bresennol, ac nad yw'r deunyddiau yn sympathetig a chymeriad yr ardal gyfagos. Teimlo bod adeilad o'r fath hefyd yn rhwystro mynediad I Bwynt Leinws a hwnnw yn ardal o harddwch naturiol arbennig.
- Kingston a Dublin - pryderon am faint y cais - 11 o dai am roi peth straen ar system garffosiaeth y pentref, a chynnydd yn nhraffig a'r gofyn am barcio hefyd yn codi pryder. Mae parcio yn y pentref eisoes yn peri gofid i'r rheini sy'n defnyddio'r Ion, ac mae problemau carffosiaeth wedi eu cofnodi ers rhai blynyddoedd.

### **5.2 Penderfyniadau -**

- Cae Pant - Caniatâd
- Riverside – Caniatad

## **6 Cyfrifon a Rheolau Ariannol**

### **6.1 Taliadau i'w cymeradwyo –**

CET

Y Clerc (papur ac inc), ROSPA (archwiliad y cae chwarae), Taliadau par goriadau y llithrfa sydd wedi eu dychwelyd.

### **6.2 Roedd copi o'r cyfrifon ar gael i unrhyw un eu gweld.**

### **6.3 Rheolau Ariannol - mae Un Llais Cymru wedi anfon dogfen swmpus i'w drafod ac o bosib ei fabwysiadu gan y Cyngor. Cytuno bod rhaid bod yn ofalus ac yn agored ynglŷn â gwariant gan mai arian cyhoeddus yw arian y Cyngor, ond bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio yn fewnol ac yn allanol yn flynyddol. Cytuno trafod eto pan fydd gofyn.**

## **7 Cais am Gymorth Ariannol**

### **7.1 Cymdeithas y Leinws - penderfynwyd rhoi £50 i'r gymdeithas lenyddol. Cynnig T Elfyn Hughes, eilio D Herbert. (TD Jones ac Hefina Williams yn datgan diddordeb)**

CET

### **7.2 Cofeb y Cymry - penderfynwyd rhoi £50 tuag at yr achos Cynnig T Elfyn Hughes, eilio D Herbert. (Cyng Aled Morris Jones yn datgan diddordeb)**

CET

### **7.3 Bydd £50 ar ôl yn dilyn y rhoddion uchod. Gofynnwyd i'r Clerc edrych ar amodau arian Tŷ Moel Isaf petai ceisiadau eraill yn dod i'r fei yn y dyfodol. Bydd efallai posib ychwanegu ar y rhoddion uchod yn y dyfodol.**

CET

## **8 Unrhyw Fater Arall**

### **8.1 Newid amodau parcio - cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn amlinellu newidiadau arfaethedig i reolau parcio ger y llithrfa yn Llanelian a ger y Neuadd Bentref ym Mhenysarn. Ar ôl trafod, roedd yr aelodau yn hapus gyda'r bwriad o baentio mwy o linellau dim parcio ger y llithrfa, ond am wybod pam fod newidiadau i'r cyfyngiad parcio 2 awr sydd ar hyn o bryd yn ei le ger y Neuadd.**

CET

### **8.2 Cais am Fainc Coffa - mae cais wedi dod i law gan Mr a Mrs Dowgun o America sydd yn gofyn am ganiatâd i osod mainc ger y traeth yn Llanelian. Ar ôl peth trafodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau a chostau, penderfynwyd cefnogi eu cais yn ddibynnol ar yswiriant y Cyngor. Bydd Mr a Mrs Dowgun yn gyfrifol am gostau'r fainc, ac unrhyw gostau yswiriant ychwanegol. Y Clerc i edrych ar gostau ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Awgrymwyd bod mainc blastig (wedi ei ailgylchu) yn cael ei brynu gan fod llai o waith cynnal a chadw arnynt.**

CET

### **8.3 Bu T Elfyn Hughes yn cynrychioli elusen y Llynges Fasnachol i osod torch ar y gofeb yn Tower Hill dros benwythnos y Cofio. Mae dros 27 mil o enwau a llongau ar y gofeb, y rheini i gyd heb fedd.**

## **9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Rhagfyr 10, 2013**

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30yh.